# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae Adroddiad Blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei gweithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe

| **Cynghorydd:** | Jane Harris | Adran Etholiadol: | Pontarddulais |
|---|---|---|---|

| **Portffolio Cabinet/Gweithrediaeth** | Gwasanaethau i Oedolion a Phobl Ddiamddiffyn |
|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Cymerais ran mewn cymorthfeydd cyngor misol a gynhaliwyd ar ail ddydd Gwener pob mis a dydd Gwener olaf pob mis rhwng 5pm a 7pm yng Nghanolfan y Bont. Roeddwn yn llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Pontarddulais ac Ysgol Gynradd Pontarddulais. Fel aelod o Gyngor Tref Pontarddulais rwy'n mynychu cyfarfodydd misol.

Cysylltodd etholwyr â mi gydag amrywiaeth o faterion a gwnes i hyrwyddo, cefnogi, siarad â swyddogion a darparu cyngor ar: fynediad i barcio i'r anabl; cynllunio; materion priffyrdd. Gweithiais gyda swyddogion i ddod o hyd i adnoddau i reoli a cheisio datrys: cyflymder traffig gormodol; diffyg marciau ar y ffordd (hysbysebwyd yn ddiweddar ar gyfer marcio); arwyddion (gosodwyd arwyddion ffordd newydd); materion goleuadau stryd a thyllau yn y ffordd.

**Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir y % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 3 | / | 7 | 43 | % |
| Y Cabinet | 0 | / | 11 | 91 | % |
| Fforwm Magu Plant Corfforaethol | 4 | / | 4 | 100 | % |
| Y Cyngor | 5 | / | 17 | 88 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 6 | / | 7 | 86 | % |
| Grŵp Partneriaeth AoHNE Gŵyr | 3 | / | 5 | 60 | % |
| Grŵp Cynghori ar y Cynllun Datblygu Lleol | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Is-bwyllgor Hawliau Tramwy a Thir Comin | 2 | / | 5 | 40 | % |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 7 | / | 8 | 88 | % |
| Panel Ymddiriedolwyr | 0 | / | 2 | 0 | % |
| **CYFANSWM** | **1** | **/** | **67** | **76** | **%** |
| | | | | | |
| Cyfarfodydd Craffu: | | | | | |
| Panel Ymchwilio Craffu Economaidd | 0 | / | 1 | 0 | % |
| Panel Ymchwilio Craffu Mewnfuddsoddi | 3 | / | 4 | 75 | % |
| Gweithgor Craffu’r Gwasanaethau Cynllunio | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Panel Perfformiad Craffu Gwella Gwasanaethau a Chyllid | 2 | / | 4 | 50 | % |
| Panel Ymchwilio Craffu Gofal Cymdeithasol yn y Cartref | 5 | / | 5 | 100 | % |
| Panel Ymchwilio Craffu Strydlun | 3 | / | 3 | 100 | % |
| **CYFANSWM** | **4** | **/** | **18** | **78** | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd

Aelod y Cabinet dros Oedolion a Phobl Ddiamddiffyn. Ers cyflawni fy rôl fel Aelod y Cabinet rwyf wedi: ymweld â chartrefi preswyl, gwasanaethau dydd i bobl ag anableddau dysgu, a'r rhan fwyaf o dai lloches y cyngor; ymweld â chyfleusterau gofal ychwanegol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Sir Benfro, Ceredigion ac Abertawe; ymweld ag amrywiaeth o gyfleusterau cymunedol gan gynnwys Tŷ Topic, a'r Fferm Gymunedol; adolygu adroddiadau unigol AGGCC ar ofal cartref a phreswyl ac wedi cwrdd â'r arweinydd lleol dros AGGCC er mwyn adolygu trefniadau monitro ar gyfer cartrefi preswyl. Rwy'n cymryd rhan mewn adolygiad o drefniadau gofal cartref o ystyried pwysigrwydd canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau sy'n ddiogel ac sy'n hyrwyddo annibyniaeth er mwyn cynnal iechyd a chefnogi pobl lle yr hoffent fyw os yw hynny yn eu cartrefi eu hunain, mewn llety lloches, mewn cyfleusterau gofal ychwanegol neu mewn gofal preswyl. Fel rhan o'r broses hon, rydym yn edrych ar rôl y gofalwyr.

Cadeirydd y Fforwm Magu Plant Corfforaethol a'r grŵp Camddefnyddio Sylweddau Lleol. Dirprwy Gadeirydd Bwrdd Cynllunio Ardal Bae'r Gorllewin dros Gamddefnyddio Sylweddau. Hwyluswyr Iechyd a Lles

Euthum i'r cyfarfodydd a digwyddiadau ychwanegol canlynol:
Gweithdy 'Let's Get It Right' Gofalwyr Maeth; Gwobrau Rho 5;
Bwrdd Cynllunio Ardal Bae'r Gorllewin; Pwyllgor Cydlyniant Cymunedol Bae'r Gorllewin; Fforwm Partneriaeth Bae'r Gorllewin;
Pwyllgor Cyd-drefnu Rhanbarthol Bae'r Gorllewin dros Gefnogi Pobl;
Seminar Craffu Bae'r Gorllewin; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cyfarfodydd Rhwydwaith 50+ Heneiddio'n Dda; Cyfarfod Cymunedol ar Wefrau Cyfreithlon yn Nhreforys;

Cyrff Allanol (2014-2015):
Cyngor Iechyd Cymunedol Abertawe a Bro Morgannwg; Fforwm Dementia;

Cyfarfodydd Rheoli Gwasanaethau Gwirfoddol Cyngor Abertawe.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Yn dilyn cynrychiolaeth gan etholwyr, fe wnes i ddilyn y potensial i gael llwybrau beicio lleol. Yn dilyn y datblygiad o lwybr newydd o Siding Fach i Heol Goppa, fe wnes i barhau i chwilio am ddatblygiadau llwybrau i fannau eraill. Yn dilyn cynrychiolaeth gan etholwyr, gweithiais gyda chydweithwyr i ddiogelu cau'r ysgol gynradd er defnydd plant Pontarddulais.

Roeddwn yn cefnogi ac yn cyd-drafod yn barhaol ddymuniadau poblogaeth Pontarddulais lle roedd tystiolaeth o bryder, potensial ar gyfer datblygu gwasanaethau a ffordd well o fyw ac angen i gefnogi datblygiadau posibl er lles y gymuned. Cynhaliwyd digwyddiad cerddorol i gael adnoddau ar gyfer gweithgareddau lleol mewn partneriaeth ag eraill.

Cwrddais â'r Athro Gerontoleg a Chyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil ar gyfer Gwyddorau Cymdeithasol Cymhwysol Prifysgol Abertawe, er mwyn adolygu ymchwil bresennol ar heneiddio ac archwilio datblygiadau yn y dyfodol a fydd yn hyrwyddo heneiddio'n iach.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Es i'r sesiynau hyfforddi canlynol:
07/05/2015 - Ymwybyddiaeth Sylfaenol o Gyffuriau (Sands Cymru)
25/03/2015 - Sylweddau Seicoweithredol Newydd (Sands Cymru)
23/10/2014 - Diogelu
15/10/2014 - Rheoli'r Drysorfa mewn Llywodraeth Leol
14/08/2014 - Manteisio i'r eithaf ar eich tabled/ffôn clyfar
06/08/2014 - Cynnwys y Cyhoedd
23/07/2014 - Diogelu Data (gan gynnwys rôl y rheolwr data)
23/07/2014 - Rhyddid Gwybodaeth

Rwyf hefyd wedi cwblhau rhaglen Datblygu Hyrwyddwyr Cydraddoldeb a gynhaliwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ddyddiadau amrywiol yn ystod 2014.

Yn fy rôl fel Llywodraethwr, fe wnes i hefyd fynychu hyfforddiant Plant sy'n Derbyn Gofal.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Fe wnes i gadeirio'r sefydliad elusenol o'r enw Partneriaeth Pontarddulais sy'n gweithio gydag etholwyr ym Mhontarddulais o ganolfan gymunedol, Canolfan y Bont, i: ddarparu clwb swyddi a chael mynediad i waith trwy ddatblygu sgiliau, gwirfoddoli a TGCh; hyrwyddo cynhwysiad digidol a datblygu sgiliau i bobl o bob oedran; darparu mynediad lleol i radd ran-amser (BA Dyniaethau gan gynnwys seicoleg a chwnsela), sy'n canolbwyntio ar faterion treftadaeth megis cyfraniad pobl leol i ymdrech y rhyfel gydag ysgolion lleol; darparu llenyddiaeth sy'n adlewyrchu hanes Pontarddulais ac arwyddion newydd ar gyfer y dref; ymateb i anghenion y gymuned gan gynnwys gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau er mwyn cefnogi eu mynediad i grantiau ar gyfer cyfleusterau megis y bwrdd sglefrio yn y parc; parhau i weithio ar y fynwent a hawliau tramwy ar y gors; cwblhau ail ran y gwaith yn yr orsaf drenau; cwblhau'r cyrtiau tenis; cynnal a pharhau i ddatblygu'r ganolfan hyfforddiant, Canolfan y Bont; creu a chyflwyno pamffled newyddion cymunedol - Bwletin y Bont; ehangu'r siop elusen a sefydlwyd er mwyn cefnogi gwaith Partneriaeth Pontarddulais.

Rwy'n gadeirydd ac yn swyddog cyllid Clwb Cinio Age Concern Pontarddulais sy'n darparu cyfle wythnosol i gwrdd yn gymdeithasol ac mae'n trefnu teithiau i Cheltenham, Arberth a'r Fenni a chyfle gwyliau i Eastbourne i oedolion 50 oed a hŷn er mwyn cefnogi ffordd o fyw cadarnhaol. Cafodd y clwb £550 mewn grantiau gan ddau ariannwr grant.

Rwy'n ymddiriedolwr dros Gyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300 nes 17 Medi 2014
Cyflog Uwch: £32,000 o 17 Medi 2014 (Aelod y Cabinet)

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 05.06.15 |